John Roberts, ‘J.R. Conwy’, 1804–84

Gweinidog (A), golygydd ac awdur

Ai ag ysol ddygasedd – yn onest
I wyneb pob trawsedd;
Digryn o blaid y gwirionedd
Ei fywyd fu, hyd ei fedd...

Ac os ceir llawer i herio – ei farn
Un ni fydd, rwy’n coelio,
Dry i achwyn, pan edrycho
I wyneb ei burdeb o...
Pedrog (O gadwyn o englynion er cof am J.R.)

Ail fab a phedwerydd plentyn John Roberts a’i wraig Mary oedd J.R. Daeth ei dad yn adnabyddus ar ddechrau’r ddeunawfed ganrif fel amddiffynnydd Calfiniaeth gymedrol a gweinidog yr Hen Gapel, Llanbryn-mair. Ganed John Roberts yn y pentref hwnnw ar 10 Tachwedd 1804 ac addysgwyd ef yn ysgol ei dad yn yr Hen Gapel. Symudodd y teulu i fyw i fferm y Diosg, a bu yntau’n gweithio ar y tir am gyfnod. Yr oedd bron yn bump ar hugain oed cyn iddo ddechrau pregethu. Ym 1831 derbyniwyd ef i’r athrofa yn y Drenewydd, a oedd bryd hynny yng ofal Edward Davies.

Fe’i hordeiniwyd yn gyd-weinidog â’i frawd Samuel Roberts yn yr Hen Gapel ym 1835 pan oedd yn dri ar hugain oed, ac ym 1838 priododd Ann, merch Thomas Jones, gweinidog Llansant-sior a Moelfre, Abergele. Ar ôl priodi treuliodd flwyddyn yn eglwysi ei dad-yng-nhyfraith cyn dychwelyd i Lanbryn-mair. O 1848 hyd 1857 bu’n weinidog yn Rhuthun, ac yna yn Aldersgate, Llundain, hyd 1860. Yn y flwyddyn honno derbyniodd alwad i fugeilio’r eglwys yn Seion, Conwy, ar gyflog o £60 y flwyddyn. Gweithiodd yn eithriadol o galed gyda’r eglwys gan ddileu dyled o £120 a chyfannu rhwygiadau a grewyd gan anghydfod yn y gorffennol. Ym 1875 teimlid bod angen capel newydd a chasglwyd

£845 er mwyn ei adeiladu. Agorwyd 'Capel y Dysteb' ar 2 a 3 Hydref 1876.

I John Roberts ei hun, ei waith pwysicaf oedd ei swydd fel gweinidog cynulleidfa Seion, a chredai fod gwasanaethu cynulleidfa o bobl ymhlith y swyddi mwyaf urddasol y gellid ei chyflawni. Ond cyflawnodd fwy na hynny gan gyfrannu'n hael at fywyd Cymru.

Yr oedd J.R. ymhlith cenhedlaeth o bobl a safai rhwng dau gyfnod lle y gwelwyd newid mewn iaith, diwinyddiaeth, pregethu a gwleidyddiaeth: rhwng Calfiniaeth gymedrol ei dad a rhyddfrydiaeth David Adams; rhwng yr hen bregethu a'r system newydd a ddatblygodd; rhwng ceidwadaeth wleidyddol a radicaliaeth oes newydd. Seiliodd ei radicaliaeth wleidyddol ar y syniad fod gan bobl ewyllys gwbl rydd i ddewis credu yn Nuw neu beidio. Ni chredai mewn etholedigaeth.

Un o'i brif gyfraniadau oedd fel golygydd *Y Cronicl* rhwng 1857 a'i farwolaeth. Yr oedd y cylchgrawn hwn yn eithriadol boblogaidd ac yn llwyfan i ddadleuon eglwysig ac enwadol. Hefyd rhoddai wybodaeth am bynciau llosg y dydd yn lleol a byd-eang.

Ystyrid John Roberts hefyd yn arloeswr mewn arddull pregethu Ymneilltuol. Gwrthwynebai bregethu niwlog a phregethu mawreddog gorflodeuog, gan ffafrio eglurder a symlrwydd. Roedd yn gas ganddo bregethu o'r math hwn: "Chwi fynyddau banaglawg ac ysgythrogedig; chwithau foroedd trochionllyd gorddiwaelodadwy ac anwadal-rymychoddaidd; chwithau ser gwefreiddiawl tanbelenawg damgynffonegawg sydd yn llamsachu yn ymwagle bodolaeth..." Credai y dylid pregethu'n debyg i'r Iesu, yn fyr, yn eglur ac yn gynhwysfawr.

Cyhoeddodd nifer o lyfrau, gan gynnwys *Traethodau, Pregethau ac Ymddiddanion*, (1854) a *Hanesion y Beibl ar Ffurf Ymddiddanion*, (1880). Bu farw 7 Medi 1884 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent gyhoeddus Conwy.